Oddi wrth / From: **Parch./Revd Gethin Rhys**
Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

Ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru: Cyflwyniad i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gan Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)

Mae Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn dwyn ynghyd 16 o'r prif enwadau Cristnogol yng Nghymru, a chanddynt ar y cyd ryw 172,000 o oedolion yn aelodau, a chyswllt ystyrlon â miloedd yn rhagor o blant, pobl ifainc ac oedolion ym mhob cymuned yng Nghymru, ynghyd â nifer o fudiadau Cristnogol eraill. (Rhestr aelodaeth lawn: www.cytun.cymru/ni.html). Cyflwynir yr ymateb hwn yn dilyn ymgynghori gyda'n haelodau.

Fe fu Cytûn yn rhan o lunio ymateb Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i'r ymchwiliad hwn ac rydym yn cefnogi yr holl sylwadau a waned yn y cyflwyniad hwnnw. Rydym am achub ar y cyfle hwn i gyflwyno i sylw'r Pwyllgor hefyd cynnwys cyflwyniad a wnaed gan Weithgor Cytûn am Gymru ac Ewrop i Gyd-Bwyllgor Hawliau Dynol Senedd y Deyrnas Unedig am yr agwedd gyntaf a agorir gan y Pwyllgor. Tynnwyd ambell sylw nad yw'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn, ond fel arall fe gyflwynir y cyfan isod. Trosywd y cyflwyniad i'r Gymraeg ar gyfer y cyflwyniad hwn.

Yr effaith ar y modd yr amddiffynnir hawliau dynol yng Nghymru wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd

1 Cyflwyniad

1.2 Mae'r nodyn canlynol yn cynnig sylwadau ar y prif egwyddorion y mae'r Gweithgor yn credu y dylid eu hystyried wrth i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried sut y dylai deddfwriaeth am hawliau dynol, a seilir ar hyn o bryd ar ddeddfwriaeth yr UE, gael ei diogelu i'r dyfodol. Nid yw'r papur hwn yn ceisio dwyn arbenigedd deddfwriaethol i'r cwestiynau a godir gan ymchwiliad y Pwyllgor.

1.3 Fel egwyddor gyffredinol, byddai'r eglwysi yn argymell yn gryf y dylai unrhyw ddeddfwriaeth a ddaw yn y dyfodol ym maes hawliau dynol ceisio sicrhau, man lleiaf, fod yr hawliau a sefydlir o fewn deddfwriaeth yr UE yn cael eu cadw yng nghyfraith y DU i'r dyfodol. Mewn rhai meysydd allweddol, fe all fod angen cryfhau'r warchodaeth ddeddfwriaethol bresennol o'i chymharu â'r sefyllfa bresennol er mwyn sicrhau fod gan y DU y fframwaith deddfwriaethol cryfaf posibl er gwarchod hawliau dynol sylfaenol.

2. Cyflwyniad i'r Pwyllgor Materion Cymreig

2.1 Mae llawer o'r meysydd hyn eisoes wedi eu nodi gan y Gweithgor yn ei gyflwyniad mwy cyffredinol i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. Fe'u hailadroddir yn y cyflwyniad hwn o fewn cyd-destun y cwestiynau penodol a godir gan y Pwyllgor hwn.

2.2 Mae'r paragraffau canlynol o'n cyflwyniad i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn berthnasol i'r Ymchwiliad presennol:

7. Hawliau a chyfleoedd

7.1. Cynnig sicrwydd buan i ddinasyddion yr UE sydd â'u statws yn ansicr ar hyn o bryd.

7.2. Diogelu statws a hawliau pobl fregus ac anabl, yr henoed a phlant.

Oddi wrth / From: **Parch./Revd Gethin Rhys**
Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

7.3. Sicrhau fod gan bobl ifanc gyfleoedd addysgol a chyflogaeth priodol yn ystod y cyfnod o ansicrwydd economaidd cynyddol sydd o'n blaen, gan gynnwys parhau i gyfranogi mewn rhaglenni megis Horizon 2020.
7.4. Bod yn groesawgar tuag at y bobl ddieithr a thlawd yn ein plith, gan gynnwys parhau i gyfranogi yn rhaglenni'r UE a rhaglenni ar draws Ewrop i ailsefydlu ffoaduriaid.
7.5. Diogelu hawliau unigolion a gweithwyr, gan sicrhau bod hawliau sydd wedi eu gwarantu gan yr UE wedi eu cynnwys yng nghyfraith y DG/y gyfraith Gymreig.
8. Cymunedau lleiafrifol
8.1. Dylai Llywodraeth EM a Llywodraeth Cymru barhau i ddiogelu hawliau Cymunedau lleiafrifol, yn arbennig y rheini sy'n teimlo dan fygythiad o ganlyniad i droseddau casineb a chamdriniaeth.
8.2. Dylai'r ddwy lywodraeth warantu, drwy ddeddfwriaeth briodol a chyllid digonol, fod ieithoedd lleiafrifol megis, ond nid yn unig, y Gymraeg, yn cael eu meithrin a'u hyrwyddo. Gan y bydd y Gymraeg yn colli ei statws cyd-swyddogol ar lefel yr UE pan fyddwn yn gadael yr UE, credwn y dylid sicrhau statws gyffelyb i'r Gymraeg (a Gaeleg yr Alban a Gaeleg Iwerddon) ar lefel y DG.

3. Preifatrwydd a bywyd teuluol

3.1 Mae'r Gweithgor yn ystyried bod preifatrwydd a bywyd teuluol o bwysigrwydd canolog, gan fod bywyd teuluol yn greiddiol i'r ddealltwriaeth Gristnogol o gymdeithas. Yn y cyd-destun hwn, crëwn y dylid diffinio bywyd teuluol yn y ffordd letaf bosibl. Mae'n hanfodol, yn y cyd-destun hwn, fod hawliau plant yn greiddiol, beth bynnag yw natur perthynas eu rhieni/gwarchodwyr, a dylid rhoi ystyriaeth arbennig i deuluoedd lle mae'r naill bartner o'r DU a'r llall o'r tu allan i'r DU, yn ogystal â theuluoedd o wledydd eraill o fewn neu'r tu allan i Ewrop, neu sy'n ceisio lloches neu statws ffoadur yn y DU. Dylid cynnwys a, lle bo angen, cryfhau statws presennol yr unedau teuluol hyn o fewn cyfraith y DU wedi Brexit.
3.2 Credwn hefyd y dylid mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gyfraith bresennol sy'n codi amheuon am hawliau a diogelwch teuluoedd, er mwyn sicrhau fod hawliau i fyw yn y DU a'r hawl i gynnal y berthynas rhwng rhiant a phlentyn yn cael eu cadw ac, os yn bosibl, eu cryfhau o fewn deddfwriaeth newydd.

4. Masnach ryngwladol

4.1 Mae'r Gweithgor o'r farn fod gwarchod hawliau dynol yn sylfaenol bwysig o fewn cytundebau masnach rhyngwladol, ac hefyd o fewn cyfreithiau cyflogaeth yn y DU. Credwn mai'r lleiafswm sylfaenol yw iddynt gael eu modelu ar y geiriau a geir o fewn cytundebau masnach yr UE ar hyn o bryd. Credwn ymhellach y dylid pwysleisio gymaint ag yn bosibl, wrth i fframwaith deddfwriaethol newydd gael ei lunio yn y maes hwn, amodau gwaith cyfiawn a theg i bob gweithiwr mewn cwmnïau a ddaw o fewn y cytundebau masnach a drafodir. Ni ddylai fod unrhyw le i gyfaddawdu parthed hawliau dynol yn y gweithle ac ni ddylid caniatáu o fewn cytundebau newydd unrhyw gamfanteisio ar blant yn y gweithle. Ni ddylid arwyddo unrhyw gytundeb masnachol, pa mor fanteisio bynnag i economi'r DU, nad yw'n cynnig sicrwydd llawn, wedi'i fonitro, yn y maes hwn.
4.2 Mae partneriaid yr Eglwysi ym maes cymorth a datblygu tramor, megis Cymorth Cristnogol a Tear Fund wedi chwarae rôl allweddol wrth gadw'r safonau uchaf o ran hawliau dynol o fewn maes masnach ryngwladol, a byddem am barhau i arddel ac ymgyrchu dros y safonau uchel hyn yng nghyd-destun unrhyw gytundebau newydd yn y maes.

Oddi wrth / From: **Parch./Revd Gethin Rhys**
Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

4.3 Mae'r Gweithgor hefyd yn pwyso ar Lywodraethau'r DU a Chymru i sicrhau fod y delfrydau uchel hyn ym maes cyflogaeth mewn gweithleoedd rhyngwladol yn cael eu cynnwys hefyd ymhob cyfraith gyflogaeth sy'n weithredol yn y DU ac nid dim ond o fewn cytundebau masnach rhyngwladol.

5. Hawliau dynol eraill a warchodir gan gyfraith yr UE

5.1 Barn y Gweithgor yw y dylid gwarchod ac, os y bernir ei fod yn fuddiol, cryfhau'r hawliau dynol a warchodir ar hyn o bryd o fewn cyfraith yr UE wrth lunio deddfwriaeth Brydeinig wedi Brexit. Fel y nodwyd eisoes, credwn y dylai hyn gynnwys hawliau llafur, hawliau anabledd a hawliau i fod yn rhydd rhag camwahaniaethu. Credwn hefyd fod angen diogelu yr hawl i addoli a mynegi crefydd. Credwn y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i sicrhau diogelwch cyfreithiol yn y DU ym meysydd tueddfryd rhywiol, hawliau plant – yn enwedig parthed camdrin plant, camfanteisio ar blant a phornograffi – a masnachu dynol.

DIWEDD Y DYFYNIAD

6. Mae Gweithgor Cytûn am Gymru ac Ewrop yn parhau i weithio yn y maes hwn ac yn barod iawn i fod o gymorth pellach i'r Pwyllgor wrth i'w waith barhau. Gellir cyhoeddi'r ymateb hwn yn llawn.

7. Am wybodaeth bellach, cysyllter â'r Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT. Ffôn: 029 2046 4378. E-bost: gethin@cytun.cymru

9 Chwefror 2017.